WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Contractau Meddygon Ymgynghorol – Adolygiad Dilynol

## Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

**Cyhoeddwyd:** Ionawr 2012

**Cyfeirnod y ddogfen:** 615A2011

# Statws yr adroddiad

Cynhaliwyd y gwaith hwn gan Malcolm Latham.

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol  Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cynnwys

Er bod cynnydd da wedi'i wneud i gyflawni rhag agweddau ar gynllun gweithredu'r Bwrdd Iechyd, nid yw trefniadau monitro pwysig wedi cael eu datblygu ac mae angen gwneud mwy i sicrhau y gweithredir canllawiau'r swydd yn effeithiol.


| | |
|---|---|
| **Adroddiad cryno** | |
| Cefndir | 4 |
| Mae canllawiau cynllunio swydd cynhwysfawr wedi cael eu rhoi ond mae angen gwneud mwy i gefnogi'r gwaith o'u cyflwyno'n gyson ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd | 5 |
| Nid oes adolygiad sylfaenol wedi cael ei gynnal o gynlluniau swyddi wedi'u cwblhau | 8 |
| Mae rhaglen sefydlu meddygon ymgynghorol newydd wedi cael ei datblygu | 9 |
| Mae'r Bwrdd Iechyd wedi atgyfnerthu ei ddull o ddatblygu arweinyddiaeth glinigol a sgiliau a gefnogir gan fynediad at raglenni hyfforddi cenedlaethol a lleol | 10 |
| Nid yw'r cynllun gweithredu ar gyfer contractau meddygon ymgynghorol wedi ymdrin â'r gwaith o sicrhau'r bwrdd bod buddiannau'n cael eu cyflawni | 11 |
| Argymhellion | 12 |
| **Atodiadau** | |
| Argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru, Ionawr 2011 | 13 |
| Cynllun Gweithredu Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan | 14 |

# Adroddiad cryno

## Cefndir

**1.** Yng Nghymru, daeth contract newydd diwygiedig y meddygon ymgynghorol i rym ar 1 Rhagfyr 2003 ac roedd disgwyl i broses effeithiol o gynllunio swyddi fod yn sail i'r trefniadau newydd hyn. Nod y broses o gynllunio swyddi yn effeithiol yw sicrhau bod y meddyg ymgynghorol unigol a'i gyflogwr yn cytuno ar gynnwys, amserlen a chanlyniad gweithgareddau sy'n rhan o'r wythnos waith.

**2.** Yn 2010, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad i weld a lwyddwyd i gyflawni buddiannau bwriadedig y Contract i Feddygon Ymgynghorol yng Nghymru. Cynhaliwyd y gwaith hwn ymhob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth a oedd yn cyflogi nifer fawr o feddygon ymgynghorol. Cynhaliwyd gwaith maes ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) yn ystod mis Hydref 2010 a chyflwynwyd adroddiad ar ganlyniadau'r gwaith hwn ym mis Ionawr 2011.

**3.** Daeth adroddiad mis Ionawr i'r casgliad, ac eithrio nifer fach o arbenigeddau, nad yw'r Bwrdd Iechyd na'i feddygon ymgynghorol yn gweld holl fuddiannau bwriadedig contract y meddygon ymgynghorol. Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol:

- ac eithrio ambell i arbenigedd, nid oedd y Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r broses o gynllunio swyddi fel dull effeithiol o ategu'r gwaith o gynllunio a moderneiddio gwasanaethau; ac
- roedd angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod y contract yn hwyluso amgylchedd gwaith cadarnhaol a thecach i bob meddyg ymgynghorol.

**4.** Roedd y gwaith hwn yn cynnwys cyfres o argymhellion (Atodiad 1) a arweiniodd at gynllun gweithredu saith pwynt (Atodiad 2) y cytunodd y Bwrdd Iechyd arno, a'r Cyfarwyddwr Meddygol oedd â chyfrifoldeb gweithredol am ei gyflawni ond Pennaeth Datblygu'r Gweithlu oedd â chyfrifoldeb am ei gyflawni'n weithredol.

**5.** Archwiliodd yr adolygiad dilynol hwn ddogfennau perthnasol a chynhaliwyd cyfweliadau â'r tîm sy'n gyfrifol am gyflawni'r cynllun gweithredu a dau gyfarwyddwr clinigol allweddol a rheolwyr eu cyfarwyddiaethau sy'n gyfrifol am gyflawni'r broses o gynllunio swyddi.

**6.** Yn yr adolygiad dilynol hwn, ceisiwyd ateb y cwestiwn: A gyflawnwyd y cynllun gweithredu cytûn yn llwyddiannus?

## Prif gasgliadau

**7.** Rydym wedi dod i'r casgliad, er i gynnydd da gael ei wneud i gyflawni rhai agweddau ar gynllun gweithredu'r Bwrdd Iechyd, nad yw trefniadau monitro pwysig wedi cael eu datblygu ac mae angen gwneud mwy i sicrhau y gweithredir y canllawiau swyddi yn effeithiol. Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol:

- mae canllawiau cynhwysfawr ar gynllunio swyddi wedi cael eu cyhoeddi ond mae angen gwneud mwy i ategu'r gwaith o'u cyflawni'n gyson ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd;
- nid oes adolygiad sylfaenol wedi cael ei gynnal o gynlluniau swyddi wedi'u cwblhau;
- mae rhaglen sefydlu meddygon ymgynghorol newydd wedi cael ei datblygu; ac
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi atgyfnerthu ei ddull o ddatblygu arweinyddiaeth glinigol a sgiliau a gefnogir gan fynediad at raglenni hyfforddi cenedlaethol a lleol.

**8.** Ceir crynodeb o'n canfyddiadau manwl yn yr arddangosion canlynol.

# Mae canllawiau cynhwysfawr ar gynllunio swyddi wedi cael eu cyhoeddi ond mae angen gwneud mwy i ategu'r gwaith o'u cyflawni'n gyson ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Erbyn pryd | Argymhelliad Gwreiddiol |
|---|---|---|---|
| Lansio canllawiau diwygiedig y Bwrdd Iechyd ar gynllunio swyddi ym mhob rhan o'r sefydliad. | Pennaeth WFD | 21.2.11 | Argymhelliad 1<br>Argymhelliad 2<br>Argymhelliad 3<br>Argymhelliad 4<br>Argymhelliad 5 |
| Datblygu pecyn hyfforddi sy'n gallu cefnogi'r broses o gynllunio swyddi yn effeithiol, i'w gyflwyno i Gyfarwyddwyr Is-adrannol. Cyfarwyddwyr Is-adrannol Cynorthwyol, Cyfarwyddwyr Clinigol, Rheolwyr Cyffredinol a Rheolwyr Cyfarwyddiaethau. | Pennaeth WFD | 18.3.11 | |
| Cychwyn cyflwyno hyfforddiant ar gynllunio swyddi ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd. | Cyfarwyddwr Meddygol<br>Pennaeth WFD | 1.4.11 | |

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Erbyn pryd | Argymhelliad Gwreiddiol |
|---|---|---|---|

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

- Cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd ei brotocol cynllunio swyddi newydd a chanllawiau i reolwyr ym mis Mawrth 2011. Disgwylir i'r canllawiau newydd hyn gael eu dilyn gan gyfarwyddwyr clinigol a rheolwyr sy'n gysylltiedig â chynllunio swyddi ar gyfer 2011-12 a blynyddoedd diweddarach. Mae'r ddogfen ganllawiau yn nodi'n glir y dull i'w ddilyn gan gynnwys cytuno ar amser SPA a'i fonitro.
- Ar gyfer y cylch cynllunio swyddi diweddaraf, nid oedd arbenigeddau Anestheteg a Thrawma ac Orthopedeg wedi defnyddio'r canllawiau hyn. Yn lle hynny, roeddent wedi datblygu eu dull a'u dogfennaeth eu hunain. Mae'r prif resymau pam na ddefnyddiwyd y canllawiau a'r ffurflenni templed fel a ganlyn:
  - cyhoeddwyd y canllawiau ym mis Mawrth gan gyd-daro â chanol y cylch cynllunio swyddi ac roedd yn rhy hwyr i'w ddefnyddio;
  - ni wnaeth y ffurflenni templed adlewyrchu cynllun gwaith anesthetyddion a defnyddiwyd ffurflen llai cymhleth gan y gyfarwyddiaeth, a oedd yn diwallu eu hanghenion yn well; ac
  - nid oedd tîm rheolwyr Trawma ac Orthopedeg yn ymwybodol o'r canllawiau newydd na'r ffaith iddynt gael eu cyflwyno yn ddiweddar.
- Mae'r dull a fabwysiadwyd gan y ddwy gyfarwyddiaeth yn gryfach o lawer nag y bu mewn blynyddoedd blaenorol a chafwyd mwy o bwyslais ar ganlyniadau a thystiolaeth ategol.
- Er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cymhwyso'n gyson, y nod oedd darparu hyfforddiant wedi'i dargedu ar gynllunio swyddi i gyfarwyddwyr clinigol a rheolwyr cyfarwyddiaethau i ategu'r canllawiau. Cawsom ein hysbysu bod y rhaglen hyfforddi hon wedi cael ei datblygu a bod y broses o'i chyflwyno wedi dod i ben ym mis Medi. Fodd bynnag, nid oedd dau dîm rheoli'r cyfarwyddiaethau yn ymwybodol o'r hyfforddiant ac o ganlyniad nid oeddent wedi ei gael.

## Gwybodaeth ychwanegol

**9.** Bu'r gwaith o gyflwyno templed mesur canlyniadau cynllunio swyddi yn ddatblygiad i'w groesawu. Mae'r templed hwn yn nodi'n glir y mesur canlyniad, meini prawf llwyddiant, camau gweithredu i'w gyflawni a'r cymorth sydd ei angen a dylai'r datblygiad hwn ddarparu'r wybodaeth i asesu canlyniad y buddsoddiad mewn Gweithgareddau Proffesiynol Ategol (SPAs). Mae'r ddogfen yn cynnwys pum enghraifft ymarferol o ganlyniadau SPA, sy'n cynnwys yr amser a ganiateir. Nododd un cyfarwyddwr clinigol fod yr enghreifftiau yn y fformat hwn yn gallu cael eu camystyried fel y targed i anelu ato a theimlwyd na ddylid dangos unrhyw amser penodol yn yr enghraifft.

**10.** Mae hyn yn awgrymu bod angen gwneud mwy i sicrhau bod y rheolwyr a'r clinigwyr sy'n gyfrifol am gynllunio swyddi yn gwbl ymwybodol o ddull gweithredu'r Bwrdd Iechyd a'u bod wedi cael eu hyfforddi'n briodol i gyflawni'r broses o gynllunio swyddi.

**11.** Teimlai'r ddau Gyfarwyddwr Clinigol fod cynllunio swyddi yn bwysig ac yn hanfodol wrth reoli gweithgarwch, perfformiad a'r gyllideb yn effeithiol. Y dull gweithredu a fabwysiadwyd gan Trawma ac Orthopedeg oedd cymhwyso'r rhaniad 7:3 Gofal Clinigol Uniongyrchol (DCC)/SPA yn seiliedig ar gymysgedd o gynnwys sefydlog a hyblyg. Ar gyfer y tri SPA roedd hyn yn cynnwys un sesiwn hyblyg bob wythnos i'w chyflwyno mewn lleoliad nas enwyd (yn y cartref fel arfer) i fodloni gofynion DPP a gofynion ailddilysu. Roedd disgwyl i'r ddau SPA caled gael eu cyflwyno mewn lleoliadau penodol gyda chanlyniadau clir:

- Un sesiwn yn cwmpasu hyfforddiant ac addysgu, gan sicrhau bod y meddyg ymgynghorol ar gael ar adeg benodol i'r hyfforddeion. Roedd hon yn strategaeth fwriadol i gynnal lefel yr ymrwymiad i hyfforddiant, gan sicrhau yr ystyrir y Bwrdd Iechyd yn gyrchfan hyfforddi o ddewis a lleihau problemau recriwtio. Cadarnhaodd y ddau Gyfarwyddwr Clinigol fod y strategaeth hon wedi llwyddo.
- Diben yr ail SPA oedd neilltuo amser ar gyfer rolau swyddogaethol o fewn y tîm gan gynnwys arweinwyr is-arbenigeddau ac arweinwyr llywodraethu.

**12.** Mabwysiadodd yr adran anestheteg ddull ychydig yn wahanol gan ddechrau gyda dwy sesiwn SPA, un sefydlog ac un hyblyg yn ymdrin â DPP ac ailddilysu a hyfforddiant ac addysgu. Trefnwyd trydedd sesiwn sefydlog os dangoswyd bod angen ei chynnal ac os oedd tystiolaeth ar gael bod ei hangen.

**13.** Nid oes sicrwydd y cynhelir y tri SPA a darparodd y ddau dîm rheoli enghreifftiau yn dangos bod y trydydd SPA wedi cael ei newid i DCC yn dilyn y cyfarfod cynllunio swyddi. Yn ogystal, darparodd y Cyfarwyddwyr Clinigol enghreifftiau i ddangos ble roeddent wedi herio'r dystiolaeth a ddarparwyd, gan arwain at newid cynllun swyddi ac, yn achos tîm Trawma ac Orthopedeg Nevill Hall, adolygiad o'r modd y darparwyd gwasanaethau trawma.

**14.** Adlewyrchodd cynnwys hyblyg y DCC ar gyfer Trawma ac Orthopedeg werthusiad mewnol o'r hyn a oedd yn amser rhesymol i gynnal rowndiau ward a gwaith gweinyddol cleifion. Mabwysiadodd yr adran anestheteg ddull tebyg i gynnwys asesu cyn ac ar ôl llawdriniaeth o'r cynllun swyddi. Mae hyn yn arfer cyffredin ac yn gweithio'n dda os yw'n seiliedig ar gonsensws tîm ac os yw'n ddigon hyblyg i gydnabod cymysgedd gwahanol o achosion.

**15.** Mae'r canllawiau yn nodi'n glir bod yn rhaid trafod cynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol sy'n fwy nag oriau'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd gyda'r Cyfarwyddwr Meddygol a bod yn rhaid iddo gytuno arnynt. Darparodd y ddau gyfarwyddwr dystiolaeth i ddangos bod oriau gweithio gormodol yn cael eu hadolygu a'u herio a chafodd cynllun swydd un meddyg ymgynghorol â llawer iawn o ymrwymiadau ei adolygu gan y Cyfarwyddwr Meddygol. Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, mae adolygiad Nevill Hall hefyd yn asesu llwythi gwaith gormodol.

# Nid oes adolygiad sylfaenol wedi cael ei gynnal o gynlluniau swyddi wedi'u cwblhau

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Erbyn pryd | Argymhelliad Gwreiddiol |
|---|---|---|---|
| Cynnal asesiad sylfaenol o holl gynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol ar ôl cwblhau adolygiadau cynlluniau swydd a gynhaliwyd yn 2010-11, er mwyn sicrhau y cedwir cofrestr gywir o DCC/SPA/amser rheoli yn ganolog. | Pennaeth WFD | 28.2.11 | Argymhelliad 1<br>Argymhelliad 2<br>Argymhelliad 3<br>Argymhelliad 6 |

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

- Rhan hanfodol o ddeall effeithiolrwydd y trefniadau cyfredol, yr effaith ar ddarparu gwasanaethau a rheoli'r busnes yw'r broses gorfforaethol o goladu canlyniadau cynlluniau swyddi o fewn arbenigeddau a rhyngddynt. Ar hyn o bryd, ni ddatblygwyd unrhyw gynlluniau i gynnal unrhyw asesiad sylfaenol er gwaethaf terfyn amser o fis Mawrth 2011. Y prif reswm am yr oedi hwn fu cydnabyddiaeth o darged rhy uchelgeisiol ac mae'r gwaith o gynllunio swyddi yn dal i fynd rhagddo ac ni chaiff ei gwblhau gan y rhan fwyaf o arbenigeddau tan fis Tachwedd.
- Er gwaethaf yr oedi hwn, ni chafodd fframwaith ei ddatblygu ar yr hyn a gaiff ei gasglu, gan gynnwys sut y caiff ei wneud a'r amseru. At hynny, nid oedd y ddau gyfarwyddwr clinigol yn ymwybodol o unrhyw asesiad arfaethedig na sut y câi ei ddefnyddio.

## Gwybodaeth ychwanegol

**16.** Un mater sy'n dod i'r amlwg y dylai'r asesiad sylfaenol ei werthuso yw'r amser ar gyfer cyfarfodydd cynllunio swyddi a nifer y cyfarfodydd y mae cyfarwyddwr clinigol yn eu hwynebu. Cynhaliwyd 63 o adolygiadau ym maes Anestheteg, a gymerodd tua naw mis i'w cwblhau. Nid yw hynny'n gynaliadwy yn yr hirdymor ac os bydd cyfarwyddiaethau eraill yn gwneud yr un peth, mae'n faich sylweddol ar un unigolyn. Dulliau amgen a weithredwyd mewn mannau eraill yw defnyddio clinigwyr arweiniol, wedi'u cefnogi gan gyfarwyddwr clinigol. Fodd bynnag, mae'r dull hwn yn dibynnu ar arweiniad clir a rhaglenni hyfforddi effeithiol.

# Mae rhaglen sefydlu meddygon ymgynghorol newydd wedi cael ei datblygu

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Erbyn pryd | Argymhelliad Gwreiddiol |
|---|---|---|---|
| Ailgyflwyno'r rhaglen sefydlu 'meddygon ymgynghorol newydd' (dau ddiwrnod). | Pennaeth WFD | 1.5.11 | |

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

- Mae diwrnod sefydlu wedi cael ei ddatblygu ar gyfer meddygon ymgynghorol newydd; caiff y rhaglen hon ei chyflawni o fewn tri mis i'r dyddiad y mae'r meddyg ymgynghorol yn ymuno â'r Bwrdd Iechyd.

## Gwybodaeth ychwanegol

**17.** Mae'r rhaglen sefydlu newydd hon yn gyfle i gwrdd â'r Prif Weithredwr ac unigolion allweddol eraill yn ogystal â darparu cyflwyniad i ddull y Bwrdd Iechyd o ymdrin â chynllunio swyddi. Mae'r posibilrwydd y bydd meddyg ymgynghorol yn aros tri mis i gael ei sefydlu yn codi cwestiynau ynghylch effeithiolrwydd y rhaglen. Er nad yw'n anarferol i drefnu diwrnod penodol i feddygon ymgynghorol, dylai'r broses sefydlu fod yn fwy strwythuredig a dylid ei chynnal pan fydd unigolyn yn cyrraedd sefydliad. Er enghraifft, sicrhau nad oes unrhyw ymrwymiadau clinigol yn ystod yr wythnos gyntaf a darparu cyfres strwythuredig o gyfarfodydd gyda'r cyfarwyddwr meddygol, y cyfarwyddwr clinigol a'r cyfarwyddwyr is-adrannol a'r rheolwyr i gyflwyno'r amcanion corfforaethol a phersonol i'r meddyg ymgynghorol newydd, egluro sut mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio, y blaenoriaethau a'r polisïau allweddol. Mae hyn hefyd yn gyfle i gynnal cyfarfodydd strwythuredig gyda meddygon ymgynghorol arweiniol ac arweinwyr eraill, i drafod pynciau fel hyfforddiant, goruchwyliaeth glinigol, rheoli heintiau, rheoli meddyginiaethau. Nid yw meddygon ymgynghorol yn gweithio ar eu pen eu hunain ac, yn dibynnu ar yr arbenigedd, mae dull mwy strwythuredig yn rhoi'r cyfle iddynt gwrdd ag unigolion allweddol eraill megis meddygon teulu a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n golygu y gall y meddyg ymgynghorol ddod yn gyfarwydd iawn â'r modd y mae'r Bwrdd Iechyd a'r gymuned leol yn gweithio cyn ymgysylltu'n llawn â rheoli eu tîm a'r ymarfer clinigol.

**18.** Bydd angen monitro effeithiolrwydd y rhaglen sefydlu newydd er mwyn gweld a yw'n diwallu anghenion corfforaethol ac anghenion meddygon ymgynghorol unigol yn ddigonol.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi atgyfnerthu ei ymagwedd at arweinyddiaeth glinigol a datblygu sgiliau a gefnogir gan fynediad at raglenni hyfforddi cenedlaethol a lleol

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Erbyn pryd | Argymhelliad Gwreiddiol |
|---|---|---|---|
| Cyflwyno rhaglen arweinyddiaeth glinigol a datblygu rheolwyr i atgyfnerthu cymwyseddau a sgiliau sy'n ofynnol i ymgymryd â rolau fel arweinwyr meddygol yn effeithiol ym mhob rhan o BIAB. | Pennaeth Addysg a Dysgu | 1.5.11 | Argymhelliad 1<br>Argymhelliad 7 |
| Sefydlu 'grŵp llywio' ar gyfer ADD/Cyfarwyddwyr Clinigol i archwilio a monitro cynnydd o ran gweithgarwch a chanlyniadau cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwyr Meddygol. | Cyfarwyddwr Meddygol<br>Pennaeth WFD | 21.3.11 | |

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi sefydlu arweinwyr clinigol effeithiol fel blaenoriaeth gorfforaethol.
- Gall Cyfarwyddwyr Clinigol fanteisio ar raglenni arwain cenedlaethol a noddir ac fe'u hanogir i gymryd rhan ynddynt. Yn ogystal â'r rhaglenni hyn, gall cyfarwyddwyr clinigol fanteisio ar raglenni Bwrdd Iechyd gan gynnwys rheoli prosiectau a rheoli cyllid.

## Gwybodaeth ychwanegol

**19.** Mae adborth cyfweliadau ar raglenni lleol yn gadarnhaol ac ym marn y cyfarwyddwyr clinigol maent yn helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu rôl. Byddai rhai cyfarwyddwyr clinigol yn croesawu cyfnod sefydlu mwy strwythuredig cyn ymgymryd â'r ymrwymiad. Gallai hyn gynnwys hyfforddiant sgiliau, mentora a chysgodi, ac osgoi cael eu bwrw i'r dwfn a gorfod dysgu yn y swydd.

**20.** Yn ogystal, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal adolygiad manylach ar hyn o bryd o ymgysylltiad clinigol a chaiff canfyddiadau'r gwaith hwn eu cyflwyno ar ffurf adroddiad i'r Bwrdd Iechyd ar ddechrau 2012.

# Nid yw'r cynllun gweithredu ar gyfer contractau meddygon ymgynghorol wedi ymdrin â'r gwaith o sicrhau'r bwrdd bod buddiannau'n cael eu cyflawni

**21.** Yn ein hadroddiad gwreiddiol, nododd Argymhelliad 2 yr angen i sicrhau bod trefniadau monitro ac adrodd priodol yn cael eu datblygu i roi'r sicrwydd priodol i aelodau'r bwrdd fod y gwaith o gynllunio swyddi yn effeithiol yn mynd rhagddo. Mae'r adroddiad diweddaraf ar Berfformiad a Moderneiddio'r Gweithlu Meddygol a gyflwynwyd i'r Bwrdd (27 Gorffennaf) yn cynnwys adroddiad cynnydd ar faterion yn ymwneud â chontractau meddygon ymgynghorol. Y prif sicrwydd a roddir yw bod cronfa ddata contractau meddygon ymgynghorol corfforaethol wedi cael ei sefydlu i fonitro ac olrhain adolygiadau a chanlyniadau cynlluniau swyddi. Nid oedd timau rheoli'r gyfarwyddiaeth glinigol yn ymwybodol o'r datblygiad hwn na'r angen i ddarparu gwybodaeth yn ganolog am ganlyniadau cynllunio swyddi. Mae hyn yn awgrymu bod angen gwneud mwy i sicrhau bod timau rheoli yn ymwybodol o'r gofyniad hwn.

**22.** Nid gweithgarwch rheoli yn unig yw cynllunio swyddi. Rhaid iddo gael ei arwain gan glinigwyr, er mwyn sicrhau dulliau ymgysylltu ac arwain gwell. Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, mae'r Bwrdd Iechyd yn ddiweddar wedi sefydlu ei grŵp llywio cynllunio swyddi. Nid oes gan y grŵp hwn gylch gorchwyl ar hyn o bryd ac nid oedd y ddau gyfarwyddwr clinigol yn ymwybodol bod y grŵp llywio hwn wedi cael ei ffurfio. Bydd angen monitro effeithiolrwydd y trefniadau hyn pan fydd swyddogaeth y grŵp yn glir.

**23.** Mae Argymhelliad 7 yn nodi'r angen i'r Bwrdd Iechyd fonitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn ofalus yn y rhaglen waith sy'n cael ei chyflwyno gan Bennaeth Datblygu'r Gweithlu. Gan mai newydd gael ei ffurfio y mae'r grŵp llywio, yn hytrach na chael ei ffurfio ar ddechrau'r broses, collwyd cyfle i wneud y canlynol:

- goruchwylio effaith y broses well o gynllunio swyddi;
- monitro'r rhaglen waith; ac
- asesu'r hyn a aeth yn dda a nodi'r meysydd lle mae angen gwneud mwy o waith.

# Argymhellion

**24.** Mae'r adroddiad hwn wedi nodi bod angen gwneud mwy i gyflawni'r broses o gynllunio swyddi yn gyson ac effeithiol. Er mwyn helpu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni'r broses o gynllunio swyddi yn effeithiol, rydym wedi nodi'r argymhellion canlynol.

| | |
|---|---|
| **Cyflawni proses gyson ac effeithiol o gynllunio swyddi** | |
| A1 | Sicrhau bod hyfforddiant ar gynllunio swyddi yn cael ei gynnig i bob rheolwr a chyfarwyddwr clinigol gyda ffocws ar ofynion canllawiau a dogfennaeth canlyniadau newydd. |
| A2 | Cynnal yr asesiad sylfaenol, er mwyn nodi'r meysydd i'w gwella a'r camau rheoli i'w cymryd. |
| A3 | Gwerthuso effaith y llwyth gwaith ar gyfarwyddwyr clinigol a nodi lle y gellir gwneud gwelliannau i gyflawni proses effeithlon a chynaliadwy o gynllunio swyddi. |
| **Cyflwyno rhaglen sefydlu effeithiol i feddygon ymgynghorol** | |
| A4 | Monitro effeithiolrwydd y rhaglen sefydlu newydd er mwyn sicrhau ei bod yn diwallu anghenion meddygon ymgynghorol unigol ac yn helpu i gyflawni amcanion y Bwrdd Iechyd. Dylid rhoi sylw arbennig i amseriad y broses sefydlu. |
| **Atgyfnerthu sicrwydd** | |
| A5 | Sicrhau bod y grŵp llywio cynllunio swyddi yn rhoi'r sicrwydd a'r trosolwg angenrheidiol i sicrhau bod proses effeithiol o gynllunio swyddi yn cael ei chyflawni, bod gwersi'n cael eu dysgu a bod gwelliannau'n cael eu gwneud. |

# Atodiad 1

## Argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru, Ionawr 2011

| Argymhelliad | |
|---|---|
| A1 | Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gymryd camau i ymgorffori'r model newydd ar gyfer arweinyddiaeth glinigol yn llwyddiannus a thrwy hyn sicrhau bod ei holl feddygon ymgynghorol yn deall gwerth gwaith cynllunio swyddi a sut y dylid ei ddefnyddio i ategu'r broses o gyflawni amcanion strategol a thargedau gweithredol y Bwrdd Iechyd. Fel rhan o hyn, dylid nodi buddiannau gwaith cynllunio swyddi effeithiol i'r meddyg ymgynghorol a'r Bwrdd Iechyd yn glir. |
| A2 | Dylid adolygu prosesau busnes i sicrhau bod gan bob meddyg ymgynghorol gynllun swydd cyfredol sy'n adlewyrchu'r gwaith y mae'n ei wneud, ac a gaiff ei adolygu bob blwyddyn. Dylai trefniadau monitro ac adrodd priodol gael eu datblygu i roi sicrwydd priodol i aelodau'r Bwrdd fod hyn yn digwydd. |
| A3 | Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y staff sy'n cynnal adolygiadau o gynlluniau swyddi yn cael y cymorth angenrheidiol o ran:<br>• canllawiau corfforaethol ategol;<br>• hyfforddiant; a<br>• chreu Fforwm Cyfarwyddwyr Clinigol neu grŵp tebyg i rannu dysgu a phrofiadau. |
| A4 | Mae angen atgyfnerthu'r broses o gynllunio swyddi drwy:<br>• sicrhau bod y broses o gynllunio swyddi yn ystyried galw clinigol a gweithgarwch ac yn trefnu sesiynau meddygon ymgynghorol yn unol â hynny;<br>• datblygu'r gweithgarwch a'r dangosyddion canlyniadau angenrheidiol ar gyfer arbenigeddau gwahanol, a chytuno arnynt, er mwyn llywio'r broses o gynllunio swyddi ac adolygu perfformiad;<br>• nodi rôl glir ar gyfer rheolwyr cyfarwyddiaethau yn y broses o gynllunio swyddi;<br>• diffinio beth yw SPA, a sut y gellir mesur y gwerth sy'n deillio ohono;<br>• hyrwyddo'r broses o gynllunio swyddi rhwng arbenigeddau lle ceir rhyng-berthnasau clir;<br>• hyrwyddo gwaith cynllunio swyddi fesul tîm, lle y gwelir bod hyn yn ychwanegu gwerth;<br>• adolygu a gweithredu argymhellion yr adroddiad ar yr archwiliad mewnol o'r broses o gynllunio swyddi a gynhaliwyd yn 2008. |
| A5 | Pan fydd cyfarwyddiaethau megis Radioleg wedi datblygu dulliau cadarn o gynllunio swyddi, dylai'r dysgu sy'n deillio o hyn gael ei rannu ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd. |
| A6 | Dylai gwaith cynllunio swyddi ategu'r broses o rannu gwaith yn deg o fewn timau meddygon ymgynghorol a dylid rhoi strategaethau a chynlluniau gweithredu ar waith i leihau llwyth gwaith gormodol. |
| A7 | Dylai'r Bwrdd Iechyd fynd ati'n fanwl i fonitro'r cynnydd a wneir gan y rhaglen waith chwe mis a gyflawnir gan Bennaeth Datblygu'r Gweithlu i sicrhau ei bod yn cyflawni'r buddiannau bwriadedig a'i bod yn ymdrin â'r materion a amlygir yn yr adroddiad hwn. |

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

# Atodiad 2

## Cynllun Gweithredu Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

| Cyf | Cam Gweithredu | Gan bwy | Pryd |
|---|---|---|---|
| JP.01 | Lansio canllawiau diwygiedig y Bwrdd Iechyd ar gynllunio swyddi ym mhob rhan o'r sefydliad. | Pennaeth WFD | 21.2.11 |
| JP.02 | Cynnal asesiad sylfaenol o holl gynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol ar ôl cwblhau adolygiadau cynlluniau swydd a gynhaliwyd yn 2010-11, er mwyn sicrhau y cedwir cofrestr gywir o DCC/SPA/amser rheoli yn ganolog. | Pennaeth WFD | 28.2.11 |
| JP.03 | Datblygu pecyn hyfforddi sy'n gallu cefnogi'r broses o gynllunio swyddi yn effeithiol, i'w gyflwyno i Gyfarwyddwyr Is-adrannol. Cyfarwyddwyr Is-adrannol Cynorthwyol, Cyfarwyddwyr Clinigol, Rheolwyr Cyffredinol a Rheolwyr Cyfarwyddiaethau. | Pennaeth WFD | 18.3.11 |
| JP.04 | Sefydlu 'grŵp llywio' ar gyfer ADD/Cyfarwyddwyr Clinigol i archwilio a monitro cynnydd o ran gweithgarwch a chanlyniadau cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Meddygol. | Cyfarwyddwr Meddygol<br>Pennaeth WFD | 21.3.11 |
| JP.05 | Cychwyn cyflwyno hyfforddiant ar gynllunio swyddi ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd. | Cyfarwyddwr Meddygol<br>Pennaeth WFD | 1.4.11 |
| JP.06 | Ailgyflwyno'r rhaglen sefydlu 'meddygon ymgynghorol newydd' (dau ddiwrnod). | Pennaeth WFD | 1.5.11 |
| JP.07 | Cyflwyno rhaglen arweinyddiaeth glinigol a datblygu rheolwyr i atgyfnerthu cymwyseddau a sgiliau sy'n ofynnol i ymgymryd â rolau fel arweinwyr meddygol yn effeithiol ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd. | Pennaeth Addysg a Dysgu | 1.5.11 |

*Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan*

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


| Wales Audit Office | Swyddfa Archwilio Cymru |
| --- | --- |
| 24 Cathedral Road | 24 Heol y Gadeirlan |
| Cardiff CF11 9LJ | Caerdydd CF11 9LJ |
| Tel: 029 2032 0500 | Ffôn: 029 2032 0500 |
| Fax: 029 2032 0600 | Ffacs: 029 2032 0600 |
| Textphone: 029 2032 0660 | Ffôn Testun: 029 2032 0660 |
| E-mail: info@wao.gov.uk | E-bost: info@wao.gov.uk |
| Website: www.wao.gov.uk | Gwefan: www.wao.gov.uk |